

Taflen Cofnodi Sgrinio Asesu'r Effaith ar Iechyd

Cynhaliwyd gan:

Eleri Carrington, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Teitl y rhaglen, y polisi neu'r prosiect

Ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach

Disgrifiad (gan gynnwys themâu ac amcanion allweddol)

Mae gordewdra yn her fawr i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Dangosodd y Rhaglen Mesur Plant (2016/17) fod 27.1% o blant pedair a phump oed yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew ac, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn 2017-18 roedd 60% o oedolion yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew.

Mae baich gordewdra ymhlith plant yn cael ei deimlo fwyaf mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gan gyfeirio at Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae 6.2% o wahaniaeth rhwng mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (14.9% ac 8.7%), ac 11% o wahaniaeth ar gyfer gordewdra ymhlith oedolion (66% a 55%).

Mae gordewdra yn arwain at risg uwch o ddioddef o ddiabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser, ac mae'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl. Amcangyfrifir y bydd salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra yn costio mwy na £465 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru erbyn 2050, gyda chost o £2.4 biliwn i gymdeithas a'r economi.

Gosododd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y themâu a'r cynigion y bydd angen i'r strategaeth hon fynd i'r afael â nhw.

Bydd yr ymgynghoriad yn llywio datblygiad cynllun 'Pwysau Iach: Cymru Iach'.

Bydd y cynllun yn para 10 mlynedd.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol', sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae newid mewn ffocws ac adnoddau tuag at atal, a mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach ac yn well, yn rhan annatod o'r weledigaeth honno.

Byddwn yn profi pob math o wahanol ddulliau yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y

rhain yn cynnwys y strwythurau y mae angen i ni eu rhoi ar waith i gyflwyno dull system gyfan i fynd i'r afael â gordewdra, deddfu i wella ein hamgylchedd bwyd a diod, gwella'r arlwy o ran bwyd a chyfleoedd ar gyfer gweithgarwch mewn pob math o leoliadau a rhoi gwasanaethau effeithiol ar waith i helpu pobl i gyrraedd a chynnal pwysau iach.

Natur y Dystiolaeth a ystyriwyd/i'w defnyddio (gan gynnwys data sylfaenol, ymchwil dechnegol ac ansoddol a gwybodaeth arbenigol a chymunedol)

Rydym wedi gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu sail dystiolaeth ar gyfer y cynigion yn yr ymgynghoriad. Byddant yn cyhoeddi'r dystiolaeth hon i gyd-fynd â lansiad yr ymgynghoriad. Bydd yn cynnwys adroddiad 'Achos dros Newid' ac adolygiad o ymchwil gyhoeddedig i ordewdra.

Mae data ar lefelau presennol o ordewdra yng Nghymru yn deillio o'r ffynonellau canlynol:

- Arolwg lechyd Cymru (oedolion 16 oed a hŷn);
- Yr Arolwg Ymddygiadau Iach mewn Plant Oedran Ysgol.
- Y Rhaglen Mesur Plant (plant 4-5 oed)

Defnyddir mesuriad Mynegai Mâs y Corff (BMI) i bennu gordewdra.

Mae adroddiad Foresight Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth ar 'Tackling Obesity: Future choices' wedi'i ddefnyddio i roi cefndir i achosion gordewdra mewn cyd-destun cymdeithasol.

Mae ymchwil gan lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Fforwm Gordewdra Cenedlaethol wedi llywio dealltwriaeth o ganfyddiadau o bwysau iach ymhlith y boblogaeth.

Mae datblygiad y cynigion yn yr ymgynghoriad wedi'i gefnogi gan 'Fwrdd Strategaeth Gordewdra' cenedlaethol a oedd yn cynnwys aelodau o Gynghrair Gordewdra Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Swyddfeydd Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a Phlant ac adrannau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys profi pob math o dystiolaeth a chynigion i ddatblygu ymgynghoriad drafft.

Ymgynghorwyd â staff a chleifion mewn Clinigau Rheoli Pwysau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hyn wedi cynnwys dau weithdy datblygu polisi gyda thros 80 o bobl a sefydliadau yn bresennol, trafodaeth ar flaenoriaethu camau gweithredu rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, y Dirprwy Brif Weithredwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cyfarfodydd bwrdd rheolaidd gyda rhanddeiliaid, cyfarfodydd gyda

Dirprwy Gyfarwyddwyr ac arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, ymweld â grwpiau rheoli pwysau cymunedol Dechrau'n Deg i weld y gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad a phrofi cynigion gyda Phwyllgor Meddygol Cymru.

Grwpiau poblogaeth allweddol sy'n cael eu heffeithio gan y rhaglen, y polisi neu'r prosiect.

Gan ddefnyddio'r rhestr o **grwpiau agored i niwed a difreintiedig** (atodiad 1), aseswch pa grwpiau ymhlith y boblogaeth a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Pobl 18-50 oed - Cadarnhaol Pobl 50 a hŷn - Cadarnhaol	Rydym wedi defnyddio dull cwrs bywyd i ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Mae 60% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew. Mae'r mynychder uchaf o ordewdra afiachus yn y grwpiau oedran 45-54 (3.5%) a 55-64 (3.3%). Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried pa wasanaethau sy'n ofynnol i helpu pobl i gyrraedd pwysau iach. Mae hyn yn cynnwys ystyried gofynion gwasanaethau clinigol. Bydd yr ymgynghoriad ar agor i'r cyhoedd, gyda sioeau teithiol yn cael eu cynnal ledled Cymru. Mae ymweliadau cyn ymgynghori â Chlinigau Rheoli Pwysau wedi'u cynnal i gael barn cleifion.	
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	Cadarnhaol	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn fformat hygyrch ar gais ac ymgynghorir â grwpiau trydydd	

		sector cynrychiadol. Mae gordewdra yn gyfrannwr mawr at flynyddoedd a dreulir gydag anabledd, a gallai mesurau ataliol gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth.	
Ailbennu Rhywedd (y weithred o ailbennu rhywedd a phobl Drawsryweddol)	Dim	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Ymgynghorir â grwpiau trydydd sector cynrychiadol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cadarnhaol	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Mae mamau sy'n ordew cyn beichiogrwydd yn fwy tebygol o gael plant a fydd yn dod yn ordew. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion i gefnogi menywod yn ystod beichiogrwydd a mamolaeth. Mae bwydo ar y fron wedi cael ei gysylltu â lleihau'r risg o ordewdra, a bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys mesurau i helpu mamau i fwydo ar y fron.	
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr ac Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Cadarnhaol	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod cyfraddau gordewdra ymhlith plant du a Tsieinaidd 4-5 oed yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru. Ymgynghorir â grwpiau trydydd sector cynrychiadol.	

Crefydd, cred a diffyg cred	Dim	Ni fydd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael ag arferion crefyddol penodol. Ymgynghorir â grwpiau trydydd sector cynrychiadol.	
Rhyw	Cadarnhaol	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r ymchwil sy'n sail i'r cynigion yn yr ymgynghoriad wedi ystyried pryd mae dynion a menywod yn wynebu'r risg uchaf o ddod yn ordew a phryd y maent yn agored i wneud newidiadau cadarnhaol.	
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Dim	Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor o ran cynnal pwysau iach.	
Priodas a phartneriaeth sifil	Cadarnhaol	Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad. Rydym wedi defnyddio dull cwrs bywyd i ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod pobl yn wynebu risg uwch o ennill pwysau ar adegau o newid yn eu bywydau, a gall hyn gynnwys wrth setlo i berthynas tymor hir.	
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Rydym wedi defnyddio dull cwrs bywyd i ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad.	

		<p>Bydd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r papur ymgynghori yn cael ei chynhyrchu a bydd pecyn adnoddau ar gael i ysgolion.</p> <p>Mae 27% o blant 4-5 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n rhy drwm neu'n ordew. Ar gyfer pobl ifanc 15 oed, mae 27% o fechgyn ac 18% o ferched yn rhy drwm neu'n ordew. Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried sut i helpu'r grŵp hwn i gyrraedd pwysau iach.</p>	
Aelwydydd incwm isel	Cadarnhaol	<p>Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio nodi mesurau a all helpu'r boblogaeth gyfan i gynnal pwysau iach. Bydd effaith y cynigion ar grwpiau penodol yn cael ei phrofi yn ystod yr ymgynghoriad.</p> <p>Datblygir digwyddiadau ymgysylltu'r ymgynghoriad i gynnwys cael barn aelwydydd incwm isel. Rydym yn gwybod bod cost bwyd yn ffactor sylweddol yn y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud, felly mae cynigion i gyfyngu ar gynigion pris arbennig ar gyfer bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr yn peri pryder. Rydym yn gwybod hefyd fod baich gordewdra ymhlith plant yn cael ei deimlo fwyaf mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gan gyfeirio at Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae 6.2% o wahaniaeth rhwng mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (14.9% ac 8.7%), ac 11% o wahaniaeth ar gyfer gordewdra ymhlith oedolion (66% a 55%).</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd i wella gwerth maethol eu harlwy bwyd ac yn gweithio mewn cymunedau ac yn ein hysgolion i wella gwybodaeth a sgiliau o ran paratoi bwyd.</p>

Sgrinio

Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio penderfynyddion iechyd a llesiant** (atodiad 2) sydd ynghlwm, ystyriwch:

- Sut (ym mha ffordd, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol)
- I ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/minimol)

Gall y grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyfan gael eu heffeithio gan y cynnig, neu gall y cynnig fod â goblygiadau iddynt – a chrynowch ar gyfer pob adran ar y daflen sgrinio isod.

Gall unrhyw gyfleoedd a gollwyd i wella'r cynnig gael eu rhestru o dan y golofn gadarnhaol (+). Gall unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd a llesiant a gollwyd gael eu rhestru o dan y golofn negyddol (-). Os nad oes unrhyw effeithiau tebygol neu os ydynt yn rhai dibwys i bob pwrpas, symudwch ymlaen i'r adran nesaf.

Gofynnwch y cwestiwn: Sut mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y penderfynyddion hyn, er enghraifft, gweithgarwch corfforol neu ddeiet (yn yr adran Ffordd o fyw) mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol? Neu ddim o gwbl?

Ffyrdd o fyw		Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio
(Cadarnhaol) + Bydd ymgynghori ar gynllun pwysau iach yn annog dewisiadau ffordd o fyw iachach, gan gynnwys gwell deiet a mwy o weithgarwch corfforol. Felly, effeithiau cadarnhaol ar y meysydd hyn o fewn iechyd y cyhoedd yw un o brif fwriadon yr ymgynghoriad.	(Negyddol) –	Plant a phobl ifanc Pob grŵp cysylltiedig ag incwm Pobl sy'n byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd		Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio
(Cadarnhaol) + Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd ar lefel gymunedol i helpu aelodau'r gymuned i gyflawni pwysau iach.	(Negyddol) –	Plant a phobl ifanc Pob grŵp cysylltiedig ag incwm

<p>Bydd hyn yn cynnwys ystyried mentrau presennol sy'n effeithiol o ran cynyddu.</p> <p>Bydd yr ymgynghoriad yn archwilio sut y gellir cefnogi rhieni i helpu eu teuluoedd i gyrraedd a chynnal pwysau iach.</p>		<p>Pobl sy'n byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael</p> <p>Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell/gorboblog</p> <p>Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau</p>
<p>Lles meddyliol</p>		<p>Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p> <p>Gall bod yn rhy drwm neu'n ordew gael effeithiau sylweddol ar les meddyliol</p>	<p>(Negyddol) –</p>	<p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Pobl hŷn</p> <p>Grwpiau cysylltiedig ag incwm</p> <p>Pobl ag anableddau</p> <p>Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall sydd â mynychder uwch o broblemau iechyd meddwl</p> <p>Ardaloedd daeryddol sydd â mynychder uwch o broblemau iechyd meddwl</p>

<p>Amodau byw/amgylcheddol yn effeithio ar iechyd</p>		<p>Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p> <p>Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl am sut y gellir defnyddio ein hamgylchedd ehangach i gefnogi pwysau iach, er enghraifft, gwybodaeth faethol, opsiynau bwyd iachach a mynediad i'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgarwch corfforol.</p>	<p>(Negyddol) –</p>	<p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Pobl hŷn</p> <p>Pobl ar incwm isel</p> <p>Pobl ag anableddau</p>

<p>Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried gwelliannau yn ein hamgylchedd i hyrwyddo mwy o weithgarwch corfforol.</p> <p>Mae argaeledd dewisiadau bwyd iach yn ffactor sylweddol yn neiet pobl. Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried sut y gellir newid ein hamgylchedd i leihau mynediad at fwydydd afiach a gwella mynediad at opsiynau bwyd iach.</p>		<p>Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell/gorboblog</p>
<p>Amodau economaidd yn effeithio ar iechyd</p>		<p>Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p> <p>Mae gwahaniaeth sylweddol mewn lefelau gordewdra rhwng y rhai yn yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gall cynyddu nifer y bobl yng Nghymru sydd â phwysau iach gael mwy o effaith ar y rhai ar incwm isel.</p>	<p>(Negyddol) –</p>	<p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Pobl ar incwm isel</p> <p>Pobl economaidd anweithgar</p> <p>Pobl ddi-waith</p> <p>Pobl ag anableddau</p> <p>Pobl sy'n byw mewn ardaloedd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael</p>

<p>Mynediad ac ansawdd gwasanaethau</p>		<p>Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p> <p>Ar hyn o bryd, y prif ddull o reoli gordewdra yw trwy'r Llwybr Gordewdra. Ein BILlau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ei roi ar waith. Mae gwaith adolygu cychwynnol wedi nodi bod y broses o roi'r llwybr ar waith ar draws pob lefel wedi bod yn anghyson, gyda gwahanol lefelau mynediad at wasanaethau ledled Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnig y cynllun system gyfan</p>	<p>(Negyddol) –</p>	<p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Pobl hŷn</p> <p>Pobl ag anableddau</p> <p>Ystod o grwpiau sy'n dioddef anfantais gymdeithasol sydd ag anghenion gwasanaeth penodol.</p>

<p>cyntaf i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru.</p> <p>Gall gwelliannau i lwybrau diogel i ysgolion a seilwaith teithio llesol arall annog ffordd fwy gweithgar o fyw a gwella mynediad at wasanaethau.</p> <p>Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl am argaeledd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.</p>		<p>Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau</p>
<p>Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd</p>		<p>Grwpiau agored i niwed sy'n cael eu heffeithio</p>
<p>(Cadarnhaol) +</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau macroeconomaidd yn y cyfnod ymgynghori hwn. Os bydd y cynllun terfynol yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar gynnyrch domestig gros trwy wella iechyd y gweithlu. Mae yna botensial hefyd i wneud arbedion i gyllideb y GIG trwy drin cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra.</p> <p>Mae cyflwyno cynllun Pwysau Iach: Cymru Iach yn cyflawni'r ddyletswydd ym Mil Iechyd Cyhoeddus 2017 i ddatblygu strategaeth gordewdra ar gyfer Cymru.</p> <p>Mae'n cefnogi'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy annog strategaethau ataliol, cydweithredu ac integreiddio. Mae'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol 'Cymru Iachach' a 'Chymru fwy cyfartal'.</p>	<p>(Negyddol) –</p>	<p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Pobl hŷn</p> <p>Pobl ar incwm isel</p> <p>Economaidd anweithgar</p> <p>Di-waith</p> <p>Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch</p>

Argymhellion

Ydy'r effeithiau a nodir uchod yn ddigon i warantu asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd?

Ydyn. Bydd asesiad llawn o'r effaith ar iechyd yn cael ei gynnal cyn cyhoeddi'r cynllun 'Pwysau Iach: Cymru Iach' terfynol.

Os na, beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad?

Amherthnasol

A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses asesu'r effaith ar iechyd?

Nac oes

Os felly, amlinellwch (rhestrwch argymhellion a/neu fesurau lliniaru/gwella yma)

Os oes angen asesiad pellach o'r effaith ar iechyd, amlinellwch y camau nesaf (e.e. amser a dyddiad cyfarfod cwmpasu)

Cwblhau'r ymgynghoriad - Ebrill 2019

Asesu'r Effaith ar Iechyd - Ebrill-Gorffennaf 2019

Cyhoeddi'r cynllun 'Pwysau Iach: Cymru Iach' terfynol - Hydref 2019

A oes asesiadau effaith eraill wedi'u cynnal neu a fydd asesiadau effaith eraill yn cael eu cynnal? h.y. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu a fydd yn rhan o un?

Os felly, amlinellwch

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau